Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Eich cyf / Your ref:

Fy nghyf / My ref: AME

Dyddiad / Date: 10 Mawrth 2023

Gofynnwch am / Please ask for:
Amanda Edwards
Llinell Uniongyrchol / Direct Line:
01267 228609
E-bost / E-mail:
AmEdwards@sirgar.gov.uk

Adolygiad Cymunedol ar gyfer yr holl Gynghorau Tref/Cymuned yn Sir Gâr

Gan gyfeirio at fy e-bost ar 3 Chwefror 2023, gallaf yn awr eich hysbysu'n ffurfiol y bydd y Cyngor Sir yn arfer ei bwerau o dan Adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y Ddeddf) i gynnal adolygiad cymunedol o'i holl Gynghorau Tref a Chymuned. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y canlynol:

- nifer aelodau'r cyngor i'r gymuned
- rhannu'n wardiau (os yw'n briodol) at ddibenion ethol cynghorwyr
- nifer a ffiniau unrhyw wardiau
- enw unrhyw ward

O dan yr adolygiad hwn ni allwn edrych ar:

- ceisiadau i greu cynghorau Tref/Cymuned newydd
- uno cynghorau Tref/Cymuned presennol
- ceisiadau i ddiddymu cyngor Tref/Cymuned

Amgaeir er gwybodaeth gopi o'r hysbysiad ffurfiol i gychwyn yr adolygiad hwn ynghyd â'r Cylch Gorchwyl a'r amserlen arfaethedig. Gall yr amserlen hon newid yn dibynnu ar nifer a natur y ceisiadau sy'n dod i law.

Cam cyntaf yr adolygiad yw ymgynghori â'r holl bartïon sydd â diddordeb, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd drwy eu hysbysu am yr adolygiad hwn. Cyn gwneud unrhyw argymhellion, bydd y Cyngor yn ystyried yr holl sylwadau a geir. Yna byddwn yn cyflwyno cynigion drafft i Rag-gyfarfod y Cabinet ac i'r Cyngor Llawn i'w cymeradwyo, cyn symud ymlaen wedyn i ail gam yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion drafft.

Byddwn yn ddiolchgar pe bai eich Cyngor yn ystyried yr adolygiad hwn, ac os oes gennych unrhyw gynigion, mae angen eu cyflwyno'n ysgrifenedig erbyn 24 Ebrill 2023 fan hwyraf.

Yr eiddoch yn ffyddlon
Amanda Edwards
Ar ran Wendy Walters, Swyddog Cofrestru Etholiadol

Wendy Walters
Prif Weithredwr, Neuadd y Sir,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Chief Executive, County Hall,
Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

CYFRANOGI · ARWAIN · CEFNOGI
EIN POBL
OUR PEOPLE
ENGAGE · LEAD · SUPPORT

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English